



Coetiroedd Glastir

Bwletin 4 – Mehefin 2016

Mae'r bwletin hwn yn rhoi y newyddion diweddaraf inni ar gyfch nesaf cynlluniau Coetir Glastir, crynodeb o'r canllawiau wedi'u diweddarau a phynciau sydd wedi eu codi yng ngweithdai hyfforddi Creu Coetir Glastir (GWC) a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2016. Mae hefyd yn cynnwys astudiaeth achos o blannu coed yng Nghymru ac yn Uganda. Mae'r rhain yn dangos manteision niferus plannu coed er mwyn bod o fudd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

Y newyddion diweddaraf o gynllun Coetir Glastir

Yn ystod ail ffenestr y rhaglen GWC ym mis Ebrill 2016, roedd 155 yn Mynegi Diddordeb. Cafwyd 50 yn mynegi diddordeb hefyd yn nhrydydd ffenestr y rhaglen Adfer Coetir Glastir (GWR). Ar gyfer ymholiadau Glastir, cysylltwch â Llywodraeth Cymru drwy eich cyfrif Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein neu ar y ffôn ar 0300 063 5004.

Tudalennau'r We Coetir Glastir

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllaw wedi ei ddiweddarau o [Dudalennau Coetir Glastir ar y we](#). Darllenwch y dogfennau hyn gan eu bod yn cynnwys y newyddion diweddaraf pwysig ar reolau cynllun Creu Coetir Glastir a'r broses wirio. **Mae hyn yn cynnwys templat newydd ar gyfer cynllun GWC, yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer yr asesiad o'r effaith amgylcheddol. Cofiwch na fyddwn yn derbyn hen dempladau o gynllun Creu Coetir Glastir.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi diweddarau eu tudalen Creu Coetir Glastir ar y we. Mae hwn yn cynnwys canllawiau ar agweddau megis mawn dwfn a chynefinoedd sensitif.

Plannu newydd ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Os oes ardal blannu newydd arfaethedig o fewn SoDdGA mae'n **rhaid** ichi ymgynghori â thîm cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid i'r ymgynghoriad hwn ddigwydd cyn ichi fynd ymlaen â'ch cynllun Creu Coetir Glastir. Cewch drefnu ymgynghoriad SoDdGA drwy anfon e-bost at glastirprocessing@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.



Dim plannu mewn Cynefinoedd Sensitif

Mae System Arolygu Bwyd y DU (UKFS) yn datgan bod yn rhaid cymeryd camau diogelu a chadwraeth priodol pan fo safleoedd a rhywogaethau yn destun darpariaethau cyfreithiol cyfarwyddbau yr UE a gwledydd eraill. Cynefinoedd sensitif Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n flaenoriaeth ac mae'r ddyletswydd i gynnal a gwella'r cynefinoedd hyn wedi eu pennu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Am ganllawiau ar gynefinoedd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n sensitif neu am dystiolaeth ffotograffig ewch i:

<https://naturalresources.wales/>

Plannu newydd ar gyfer Rhedyn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru am flaenoriaethu y broses o wirio achosion sy'n gysylltiedig â Rhedyn i sicrhau y gall y chwistrellu fynd ymlaen o fis Gorffennaf 2016. Os oes cynlluniau Creu Coetir Glastir ar rannau o redyn sydd angen eu chwistrellu cyn plannu, nodwch **RHEDYN** yn glir fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru flaenoriaethu'r achos.

Cyflwynodd y Gyfarwyddiaeth Rheoliadau Cemegol lythyr hysbysiad awdurdodi ar 26 Ebrill 2016. Mae'r hysbysiad yn awdurdodi y defnydd o asulam ar ffurf Asolux i reoli rhedyn o'r 1 Gorffennaf 2016 tan 12 Medi 2016. Daw hyn i rym ar 16 Mai 2016.

Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan rheoli rhedyn ar www.brackencontrol.co.uk.

Barn ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

I'r mwyafrif o achosion bydd y farn ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei hasesu wedi i'r cynllun GWC gael ei anfon gan Lywodraeth Cymru at Cyfoeth Naturiol Cymru i'w wirio. Mae'r broses hon yn dilyn yr adborth gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector.

Ar gyfer cynlluniau Creu Coetir Glastir mwy, mwy cymhleth, rydym yn awgrymu i ymgeiswyr gyflwyno barn ar AEA ar wahân ar gyfer plannu newydd. Gall ymgeisydd wneud cais am farn ar AEA ar unrhyw adeg, hyd yn oed os fydd y ffenestr mynegi diddordeb Creu Coetir Glastir wedi cau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â **bwriad o ddifrif** i blannu o'r newydd.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

<https://naturalresources.wales/>



Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y canllaw ategol sydd ei angen ar gyfer barn ar AEA (neu ddatganiad AEA) am gynlluniau plannu mwy a mwy cymhleth. Am wybodaeth, ewch i:

<https://naturalresources.wales>

Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Amgylcheddol

Bydd pob cynllun Creu Coetir Glastir yn yr Zil gais Mynegi Diddordeb yn cael ei asesu gan CADW ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr os oes angen ymweliad i'r safle gan yr Ymddiriedolaeth. Caiff ei ariannu drwy Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.

Cod Carbon Coetiroedd (Vicky West, Y Comisiwn Coedwigaeth)

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cynnig cofrestru holl achosion Carbon llwyddiannus Coetir Brodorol Creu Coetir Glastir 2015 i'r Cod Carbon Coetiroedd. Bydd Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r cynllunwyr Creu Coetir Glastir perthnasol yn fuan i roli amlinelliad o'r broses o gofrestru prosiectau i'r Cod Carbon Coetiroedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chynllunwyr perthnasol y Cod Carbon Coetiroedd yn fuan i amlinellu'r broses ar gyfer cofrestru prosiectau i'r Cod Carbon Coetiroedd. Bydd hyn hefyd yn gofyn am gydsyniad y perchennog i gofrestru'r prosiect.

Noder: Dylid cofrestru'r prosiectau gyda'r Cod Carbon Coetiroedd o fewn yr amserlen ofynnol i fod yn gymwys am grant Creu Coetir Glastir. Os nad yw ymgeisydd am gofrestru gyda'r Cod Carbon Coetiroedd, ni ddylech ddewis opsiwn Coetir Brodorol – Carbon (Creu Coetir Glastir cyfeirnod 802). Bydd yn rhaid i unrhyw gynllun Creu Coetir Glastir sydd â'r opsiwn hwn ad-dalu'r grant os nad yw wedi cofrestru o fewn yr amser gofynnol.

Yn y tymor hwy, mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn chwilio am 'reolwyr grwpiau' yng Nghymru i helpu i gydlynnu prosiectau Cod Carbon Coetiroedd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â vicky.west@forestry.gov.uk.



Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid (Helen Cariss, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae'r map cyfleoedd am goetiroedd Lle yn nodi dalgylchoedd sy'n 'methu' neu sydd 'mewn perygl' yng Nghymru. Os bydd cynnig yn dod o fewn y meysydd hyn a thros y trothwy sydd wedi'i bennu yn y canllaw gweithredu *Rheoli Coedwigoedd mewn Ardaloedd Sensitif i Asid yng Nghymru*, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori â thîm Rheoli Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy forestregulations@naturalresourceswales.gov.uk

Bydd Rheoliadau Coedwigoedd yn sefydlu a fydd y plannu newydd arfaethedig yn mynd â'r ardal o goetir o fewn y dalgylch i dros 30%. Os mai dyma fydd yn digwydd, bydd angen i'r ymgeisydd gasglu samplau o ddŵr ar gyfer asesiad llwyth critigol. Cawn amlinelliad o hyn yn y canllaw gweithredu.

Os y gall y plannu barhau, bydd angen i gynigion lynnw at adran Coedwigoedd a Dŵr UKFS ar asideiddio. Yn ôl Canllawiau Coedwigaeth 6, mae angen cyfyngu ar nifer y coed gwernen i lai na 10% o'r ardal sydd ar lannau afonydd o fewn dalgylchoedd sy'n sensitif i asid. Mae ardaloedd ar lannau afonydd o fewn porth clustogi sydd wedi ei ddiffinio yn Nhabl 5.1 adran Coedwigoedd a Dŵr UKFS.

Am ragor o wybodaeth ewch i:
<https://naturalresources.wales>

Rhagor o ganllawiau ar amrywiol rywogaethau (Richard Carrick, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae canllawiau ar gael ar ddewis rywogaethau coed amrywiol i sicrhau nad yw y newid yn yr hinsawdd yn cael gormod o effaith ar y sefyllfa. Er enghraifft, trwy ddefnyddio calch wrth blannu ar gyfer Creu Coetiroedd Glastir (Gwaith Cyfalaf Glastir 801-4).

Am ragor o wybodaeth ewch i:
<https://naturalresources.wales>

Coed Pisgwydd (*Tilia spp*)

Y ddau brif fath o goed pisgwydd sy'n tyfu yng Nghymru yw'r pisgwydd sydd â dail mawr (*Tilia platyphallos*) a'r pisgwydd dail bychain mwy cyffredin (*Tilia cordata*).



Mae hinsawdd sy'n cynhesu yn fwy addas i bisgwydd dyfu ynddo ac felly dylai ddod yn fwy amlwg yng Nghymru. Mae hyn, yn rhannol, fel dewis arall yn lle coed ynn mewn coetiroedd brodorol. Mae'n rhywogaeth sy'n tyfu mewn cysgod a gall dyfu'n fawr mewn priddoedd addas, mae'n gwrthsefyll oerni a hefyd yn gallu gwrthsefyll sychder a rhew, ond ni all wrthsefyll bod mewn gwynt.

Credir hefyd bod Coed Pisgwydd yn gwella pridd. Mae'n gwrthsefyll cysgod a bondocio ac mae'r cnwd yn hyd at 8m³/hec/fl.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth am leiniau da neu grwpiau bychain o goed pisgwydd, neu goed pisgwydd mewn coetir yn tyfu yn dda, anfonwch ebost at Richard.Carrick@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

Cafodd y cynllun hwn ei gynllunio i gynorthwyo amrywiol gyrfyf preifat a chyhoeddus i wneud buddsoddiadau fydd yn gwella potensial coedwigoedd neu sy'n gysylltiedig â symud, prosesu neu roi gwerth ychwanegol i gynnyrch o goedwigoedd sydd o fudd i goetiroedd Cymru. Bydd y grantiau yn canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau fydd yn gwella gwerth economaidd coedwigoedd, cynaeafu a phrosesu cynnyrch coedwigoedd. Gellir defnyddio grantiau i wella a datblygu cyfleusterau prosesu neu gontractio, ac i brynu offer newydd neu ail-law sy'n gymwys. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/timber-business-investment-scheme>.

Grantiau Bach Glastir

Bydd cynllun grantiau bach Glastir yn rhoi cyfleoedd i reolwyr tir a busnesau ffermio ledled Cymru i wneud cais am grantiau Gwaith Cyfalaf fydd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella'r dull o reoli dŵr a gwella bio-amrywiaeth. Mae'r cam Mynegi Diddordeb cyntaf ar gyfer Grantiau Bychain Glastir i agor ym mis Mehefin 2016.

Am ragor o wybodaeth ewch i:-



<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/glastir-small-grants/?lang=cy>

Cyswllt Ffermio (Geraint Jones, Swyddog Coedwigaeth Technegol Cyswllt Ffermio)

Mae rhaglen newydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cymorth a allai drawsnewid rhagolygon busnes ffermwyr a choedwigwyr. Er mwyn elwa o bopeth sydd bellach yn cael ei gynnig, bydd angen ichi **gofrestru** ar gyfer y rhaglen newydd. Bydd angen i unigolion sydd wedi cofrestru o dan raglen flaenorol Cyswllt Ffermio **ail-gofrestru**. Mae meini prawf cymhwysedd Cyswllt Ffermio wedi ehangu i gynnwys mwy o ffermwyr a choedwigwyr gyda daliadau llai, categorïau newydd o gontractwyr hunan-gyflogedig a busnesau bwyd. Mae nifer o wasanaethau wedi eu cyllido'n llawn, ac eraill yn derbyn cymhorthdal o hyd at 80%. Gallai'r cymorth gan Cyswllt Ffermio gynnwys:-

- Manteisio o gymorth busnes strategol â chymhorthdal, sydd wedi ei deilwra i'ch anghenion busnes
- Datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen ddysgu datblygiad proffesiynol/dysgu gydol oes barhaus newydd gyda'r dulliau arloesi diweddaraf mewn technoleg trwy ddatblygiadau yn y diwydiant a'r prosiectau ymchwil diweddaraf.
- Rhannu arferion gorau a manteisio ar yr wybodaeth sydd gan ffermwyr, arbenigwyr y diwydiant a gwaith ymchwil academaidd.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal amrywiol ddiwyddiadau gan gynnwys cymorthfeydd unigol, digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol a digwyddiadau agored ar ein rhwydwaith o safleoedd arddangos. Os hoffech ragor o wybodaeth, bydd Geraint Jones o Cyswllt Ffermio ar stondin Coed Cymru yn ardal Goedwigaeth y Sioe Frenhinol. Edrychwch ar y wefan [Menter a Busnes](#) i gael y newyddion diweddaraf ar ddiwyddiadau Cyswllt Ffermio yn y dyfodol.

Plannu coed yn y Canolbarth

Mae fferm organig yn y canolbarth wedi plannu hyd at 17Ha o dan gynllun Creu Coetir Glastir ym mis Chwefror a Mawrth 2016. Mae busnes y fferm yn cynnwys 120 o wartheg godro, diadell o 700 o ddefaid a 50 o wartheg tew. Plannodd y fferm gymysgfa Frodorol er Carbon yng nghynllun Creu Coetir Glastir 802) gyda dail llydan (derwen mes di-goes, coed criafol, bedwen arian, gwernen, collen a draenen wen) 2m ar wahân. Cafodd dros 40,000 o goed eu plannu gyda 6,000m wedi eu gosod y tu mewn i ffensys dros nifer o adrannau ar dair fferm.



Mae cynllun Creu Coetir Glastir yn golygu nifer o fanteision i fusnes y fferm a'r economi ehangach:-

- Mae'r ffensys a'r plannu newydd wedi gwella seilwaith a biddiogelwch y fferm drwy wella'r ffiniau â'r ffermydd cyfagos.
- Mae gan y fferm incwm rheolaidd o grantiau premiwm Creu Coetir Glastir am 12 mlynedd.
- Bydd cyflenwad cynaliadwy o goed a choed tân yn y dyfodol. Mae gan y fferm fwyler biomas i wresogi'r tŷ fferm ac adeiladau'r fferm.

Mae gan fusnes y fferm ôl troed carbon gwell, fydd yn dod yn fwy pwysig yn y dyfodol ym marn y ffermwyr, yn enwedig gyda chynlluniau gwarant fferm.

Mae manteision i'r economi leol, gyda'r fferm yn defnyddio contractwr plannu lleol i gynnal y gwaith ac i brynu coed o blanhigfa goed leol.

Plannu! Coeden ar gyfer bob plentyn yng Nghymru (Carol Travers, Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae Plannu! yn brosiect gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i ddarparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Goed. Mae Plannu! yn cyfrannu at strategaethau'r Llywodraeth ar gyfer lliniaru y newid yn yr hinsawdd ac yn rhoi cysylltiad diriaethol rhwng plant ifanc a'u hamgylchedd naturiol. Gallai'r cyllid gynnwys rhywfaint o gynnal a chadw i sefydlu'r coed, a seilwaith megis llwybr hawdd i'w cyrraedd, maes parcio bychan i ymwelwyr a meinciau. Am ragor o wybodaeth ewch i :

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/plantatree>

Plannu coed yn Uganda (Alex Harris – Polisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru yn rhan o gynllun i annog cynaliadwyedd amgylcheddol, a thrwy y rhaglen Cymru o Blaid Affrica, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun Ten Million Trees Project in Uganda. Mae'r coed sy'n cael eu plannu yn rhoi amrywiol adnoddau ar gyfer cymunedau, ac yn cynnwys coed neu goed tân. Y nod yw torri llai o goedwigoedd trofannol brodorol i lawr, yn enwedig o ystyried bod dros 90% o'r coginio yn dal i gael ei wneud gyda choed fel tanwydd yn Uganda. Caiff coed eraill eu plannu fel cnwd porthiant ar gyfer da byw neu beillwyr, coed ar ffiniau i sefydlogi'r pridd, coed fel cysgod ar gyfer arferion amaeth-goedwigaeth neu fel coed ffrwythau mewn canolfannau teuluol neu ar dir ysgolion, er mwyn rhoi maeth a chysgod i blant Uganda.